OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 612 (Cy.58)

# Y DRETH GYNGOR, CYMRU

## Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *5 Mawrth 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 12, 113 a 116 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998(**3**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 2 (dehongli) yn lle'r diffiniad o "qualifying person" rhodder—

> ""qualifying person" means a person who is liable for the council tax in respect of a dwelling on a particular day, whether or not jointly with any other person, or who would be liable for the council tax in respect of a dwelling on a particular day if that dwelling did not fall within Class O of the Council Tax (Exempt Dwellings) Order 1992(**4**);".

(**1**) 1992 p.14.
(**2**) Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a breiniwyd hwy bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 1998/105.
(**4**) O.S. 1992/558.